Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Prentisiaethau yn Darparu Gwasanaethau Ariannol

Rhif y Fframwaith: FR04213 **Rhifyn:** 23 **Dyddiad**: 19/01/2018

Cytunwyd ar gynnwys y Fframwaith hwn gan Financial Skills Partnership ac maent wedi'i gyhoeddi.

TROSOLWG:

Mae'r Fframwaith hwn yn nodi'r safonau a'r meini prawf ar gyfer cyflwyno darpariaeth hyfforddiant Lefelau 2 a 3 o fewn y sector Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol. Os cwblheir y ddarpariaeth, caiff cymhwyster wedi'i ddynodi/reoleiddio ei ddyfarnu.

Mae Prentisiaeth Lefel 2 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys Gweinyddwyr Gwarantu Yswiriant, Gweinyddwyr Trin Hawliadau, Gweinyddwyr Broceru a Derbynwyr Arian mewn Banc.

Mae Prentisiaeth Lefel 3 yn addas ar gyfer amrywiaeth o rolau, gan gynnwys Gwarantwr dan Hyfforddiant, Swyddog Hawliadau dan Hyfforddiant, Brocerwr dan Hyfforddiant neu Gynrychiolydd Gwerthiannau ac Uwch-dderbynnydd Arian mewn Banc.

DEILLIANNAU GORFODOL

Bydd y corff dyfarnu priodol yn gwirio sut yr asesir cyflawni'r cymwysterau hyn. Rhaid i unigolion gwblhau:

- Naill ai gymhwyster cymhwysedd a gwybodaeth neu gymhwyster sy'n cyfuno'r ddwy elfen o un o'r llwybrau canlynol
- Sgiliau Hanfodol a'r Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth a nodir isod

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 2:
Llwybr 1: Yswiriant Cyffredinol:
Llwybr 2: Bancio
Llwybr 3: Yswiriant Bywyd a Phensiynau
Llwybr 4: Cyllid a Chredyd
Llwybr 5: Gweinyddu Morgeisi a/neu Gyfryngwyr Cynllunio Ariannol
Llwybr 6: Gweithrediadau Buddsoddiadau
Llwybr 7: Taliadau Cwsmeriaid ar gyfer Cynhyrchion a Gwasanaethau Ariannol
Llwybr 8: Casglu Dyledion

Llwybrau ar gyfer y Fframwaith hwn ar lefel 3:
Llwybr 1: Yswiriant Cyffredinol
Llwybr 2: Bancio
Llwybr 3: Gweithrediadau Buddsoddiadau
Llwybr 4: Bywyd, Pensiynau a Buddsoddiadau
Llwybr 5: Gweinyddu Morgeisi a/neu Gyfryngwyr Cynllunio Ariannol
Llwybr 6: Cyllid a Chredyd
Llwybr 7: Gweinyddu Pensiynau
Llwybr 8: Casglu Dyledion
Llwybr 9: Taliadau Cwsmeriaid ar gyfer Cynhyrchion a Gwasanaethau Ariannol

Sgiliau Hanfodol Cymru:
Lefel 2 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 1, Lefel Gyfathrebu 1, Lefel TGCh 1

Lefel 3 Prentisiaethau
Lefel Cymhwyso Rhif 2, Lefel Gyfathrebu 2, Lefel TGCh 2

Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

Mae'r wybodaeth a'r broses sefydlu sylfaenol sy'n ymwneud â Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn y gweithle yn **ddewisol.**

RHAGOR O WYBODAETH

I weld cynnwys y Fframwaith hwn a'r fanyleb lawn, cysylltwch: Financial Skills Partnership.